Dr Melissa McCullough
Y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Gweinidogol
Independent Adviser on Ministerial Standards

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrh Vaughan Gething
Cyn-Brif Weinidog Cymru

TRWY E-BOST

12 Mai 2026

Annwyl y Gwir Anrh Vaughan Gething

Diolch ichi am geisio fy nghyngor yn unol â Rheolau Penodiadau Busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer cyn-Weinidogion (y "Rheolau") mewn perthynas â chymryd rhan mewn tair darlith wadd i annerch cymysgedd o fyfyrwyr a staff yng Ngholeg y Brenin Llundain, gan fyfyrio ar fywyd mewn swydd weinidogol.

Mae'r Rheolau yn bodoli i amddiffyn uniondeb y llywodraeth ac i ddiogelu hyder y cyhoedd mewn llywodraeth drwy sicrhau nad yw cyn-Weinidogion, ac nad ymddengys eu bod ychwaith, yn manteisio neu'n elwa'n amhriodol ar eu hamser yn eu swydd, neu'n trosglwyddo manteision o'r fath i eraill. Wrth ystyried eich cais, canolbwyntiaf felly ar a oes unrhyw risgiau yn deillio o'ch rôl flaenorol ac, os felly, sut y gellir ymdrin â'r rhain yn briodol.

Mae'r wybodaeth berthnasol a'm hystyriaeth o'ch cais wedi'u nodi yn yr Atodiad. Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd ynghylch y Rheolau, mae'r tri amod isod yn gymwys. Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw at yr amod cyntaf, sef yr amod mwyaf uniongyrchol berthnasol i'ch cais.

**Yr Amodau Safonol:**

1. **Yr amod gwybodaeth freintiedig** - Caniateir ichi fanteisio ar sgiliau a phrofiadau a gawsoch yn ystod eich cyfnod yn y swydd, fodd bynnag, ni chaniateir ichi fanteisio ar unrhyw wybodaeth freintiedig a gawsoch yn ystod eich cyfnod yn y swydd <u>ar unrhyw adeg</u>. Mae hon yn ddyletswydd barhaus ni waeth yr amser sydd wedi mynd heibio ers ichi adael y swydd.
2. **Yr amod lobïo** - Rhaid i unrhyw gyswllt â Llywodraeth Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ddigwydd dim ond lle na ellid yn rhesymol ystyried ei fod yn lobïo. Mae hyn yn gymwys am gyfnod o ddwy flynedd wedi eich diwrnod olaf yn y swydd.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Independentadviserwales@gov.wales
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

3. **Yr amod contractau a cheisiadau** - Ni chaniateir ichi weithio ar unrhyw geisiadau i sicrhau cyllid neu gontractau'r llywodraeth neu ddarparu cyngor ar geisiadau o'r fath. Mae hyn yn gymwys am gyfnod o ddwy flynedd wedi eich diwrnod olaf yn y swydd.

Gofynnaf hefyd ichi nodi'r canlynol:

- Nid yw'r cyngor hwn yn gyfystyr â chymeradwyo eich ymwneud yn ystod y darlithoedd gwadd hyn. Mae'n gyfyngedig i gymhwyso'r Rheolau a sut y caiff unrhyw risgiau sy'n deillio o'ch rôl weinidogol flaenorol eu rheoli.

- Dim ond o ran eich rôl flaenorol yn y llywodraeth y mae'r cyngor hwn yn ymwneud â hi. Nid yw'n ymestyn i, nac yn disodli, unrhyw reolau a roddir ar waith gan gyrff eraill, gan gynnwys Comisiwn y Senedd, mewn perthynas â'ch rôl flaenorol fel Aelod. Eich cyfrifoldeb personol chi yw sicrhau eich bod yn deall ac yn cydymffurfio ag unrhyw reolau a gofynion rheoleiddiol eraill sy'n gymwys ochr yn ochr â'r cyngor hwn.

- Yn y cyd-destun hwn, ystyr "gwybodaeth freintiedig" yw gwybodaeth y cawsoch fynediad ati yn rhinwedd eich gwahanol rolau gweinidogol ac nad yw ar gael i'r cyhoedd. Efallai y byddwch hefyd yn parhau i fod ynghlwm wrth rwymedigaethau cyfrinachedd eraill, gan gynnwys y rhai o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol, y Cod Gweinidogol, neu ofynion tebyg.

- Fel y nodir yn y Rheolau, mae'r cyfyngiad lobïo yn atal cyn-Weinidogion rhag cyfathrebu â'r llywodraeth (gan gynnwys Gweinidogion, gweision sifil, cynghorwyr arbennig, a deiliaid swyddi cyhoeddus eraill), lle bynnag y mae'r cyfathrebu hwnnw'n digwydd, i geisio dylanwadu ar benderfyniad, polisi, neu ddyfarnu contract neu grant y llywodraeth mewn perthynas â'u buddiannau eu hunain neu fuddiannau y sefydliad y maent yn gysylltiedig ag ef.

- Er nad yw'n amod o dan y Rheolau Penodiadau Busnes, dylid rhoi sylw i'r egwyddorion a nodir yn Adroddiad Radcliffe 1976 (Gorchymyn 6386). Er nad yw'r gyfres o ddarlithoedd gwadd gyfystyr â chofiant, dylid parhau i fod yn ofalus i beidio â rhannu gwybodaeth a allai fod yn niweidiol i'r cysylltiadau cyfrinachol rhwng Gweinidogion, neu rhwng Gweinidogion a swyddogion.

Mae'r cyngor hwn yn ymwneud yn benodol â'r tair darlith wadd y byddwch yn cymryd rhan ynddynt. Gan fod y Rheolau yn gymwys am gyfnod o ddwy flynedd wedi ichi adael eich swydd, mae'n ofynnol ichi roi gwybod i'm hysgrifenyddiaeth am unrhyw ddigwyddiadau siarad pellach ac am unrhyw newid os daw'r trefniant o fod yn ddarlithydd gwadd yn drefniant mwy ffurfiol neu os daw yn ffynhonnell o gyflogaeth barhaus, gan gynnwys os telir tâl cadw, ar unrhyw adeg hyd at 6 Awst 2026, sy'n nodi diwedd y cyfnod hwnnw.

Yn gywir,



**Dr Melissa McCullough**
Y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Gweinidogol / Independent Adviser on Ministerial Standards

**Atodiad – Asesiad o'r wybodaeth berthnasol ac ystyriaeth o'r risgiau**

**Y Rôl**

1. Gwnaethoch gyflwyno cais Lefel 1 mewn perthynas â chymryd rhan mewn tair darlith wadd i annerch cymysgedd o fyfyrwyr a staff yng Ngholeg y Brenin Llundain, gan fyfyrio ar fywyd mewn swydd weinidogol. Nid cynnig o gyflogaeth yw hwn, ond rhoddir cydnabyddiaeth ariannol.

**Asesiad**

2. Fel y cydnabyddir yn y Rheolau Penodiadau Busnes, mae galluogi cyn-Weinidogion i symud i fusnes neu feysydd eraill o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys dechrau gyrfa newydd neu ailafael mewn gyrfa flaenorol, er budd y cyhoedd. Mae'r un mor bwysig, pan fydd cyn-Weinidog yn derbyn unrhyw benodiad neu gyflogaeth, nad oes unrhyw bryderon am eu priodoldeb.

3. Wrth asesu'r cais, cymhwyswyd y profion priodoldeb allweddol. Daethpwyd i'r casgliad nad yw'r trefniant yn gyfystyr â phenodiad neu gyflogaeth ac na ellid ei ystyried yn rhesymol fel gwobr am ffafrau yn y gorffennol, a hynny o ystyried bod y sefydliad yn gweithredu o fewn maes polisi nad yw wedi'i ddatganoli. Nid oes unrhyw risg o fantais annheg gan nad oes perthynas barhaus â chyflogwr ac mae'r darlithoedd gwadd wedi'u cyfyngu i rannu myfyrdodau cyffredinol, ac nid gwybodaeth o natur gyfyngedig. Er y gellir rhag-weld y gall cyn-Brif Weinidog gael ei wahodd i siarad am ei gyfnod yn y swydd, eir i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n weddill ynglŷn â phriodoldeb drwy amodau priodol a amlinellir yn fy llythyr cyngor.

**Ystyriaeth o'r risgiau**

4. Ni nodwyd unrhyw sail yn ymwneud â phryder cyhoeddus mewn perthynas â'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn. Os daw'r trefniant o fod yn ddarlithydd gwadd yn drefniant mwy ffurfiol neu os daw yn ffynhonnell o gyflogaeth barhaus, gan gynnwys os telir unrhyw dâl cadw, dylid cyflwyno cais pellach. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys hyd at 6 Awst 2026, sef diwedd y cyfnod o ddwy flynedd.

Dr Melissa McCullough
12 Mai 2026